



Cynllun Heddlu a Throseddu 2013-18

Christopher Salmon – Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys

Dyma'r Cynllun Heddlu a Throseddu cyntaf i'w gyhoeddi gan y Comisiynydd Heddlu a Throseddu cyntaf ar gyfer ardal Dyfed-Powys. Mae'r Cynllun yn rhedeg am y cyfnod 2013 – 2018.

Cynnwys

1.0 Rhagair gan y Comisiynydd Heddlu a Throseddu	3
2.0 Crynodeb Gweithredol	4
Blaenoriaethau	4
Cynnydd	4
Cyllideb	4
3.0 Cyflwyniad	5
3.1 Beth fyddaf yn ei wneud?	5
3.2 Paramedrau'r Cynllun	6
3.3 Gwerthoedd craidd y Prif Gwnstabl	7
4.0 Yr Ardal Leol, ein cymunedau a'u hanghenion	7
4.1 Yr Ardal Leol	7
4.2 Ein cymunedau	8
4.3 Anghenion Cymunedau	9
5.0 Fy Mlaenoriaethau	10
Blaenoriaeth Un – Atal a mynd i'r afael â digwyddiadau a throseddau	10
Blaenoriaeth Dau – Diogelu Pobl sy'n Agored i Niwed	11
Blaenoriaeth Tri – Dwyn pobl gerbron y llysoedd	12
Blaenoriaeth Pedwar – Gwella mynediad i wasanaethau plismona	13
Blaenoriaeth Pump – Sicrhau safonau proffesiynoldeb uchel	14
Blaenoriaeth Chwech – Gwario'n ddoeth	14
6.0 Monitro cynnydd	15
6.1 Hyder y Cyhoedd	15
6.2 Hygyrchedd a bodlonrwydd	16
6.3 Trosedd a chyfiawnder	17
6.4 Cyfraniad partneriaid	18
7.0 Y darlun troseddu, diogelwch cymunedol a chyfiawnder troseddol ehangach	18
7.1 Byrddau Gwasanaethau Lleol	18
7.2 Partneriaethau Diogelwch Cymunedol (PDC)	19
7.3 Partneriaethau Plant a Phobl Ifainc (PPPhI)	19
7.4 Cyrff Cyfiawnder Troseddol	19
7.5 Grwpiau Gwirfoddol	20

7.6 Fforymau Sefydledig	20
7.7 Y Bwrdd Partneriaeth	20
8.0 Adnoddau	21
8.1 Beth sydd gennym i'w wario	21
8.1.1 Setliad ar gyfer Heddlu Dyfed-Powys 2013-14 a thu hwnt	21
8.1.2 Pwysau costau sy'n effeithio ar Gyllidebau 2013-14 tan 2017-18	21
8.1.3 Gwelliannau Gwerth am Arian a geisir yn 2013-14 tan 2017-18.....	22
8.1.4 Praeseptau'r Dreth Gyngor ar gyfer 2013-14 tan 2017-18.....	23
8.2 Beth rydym yn ei wario.....	24
8.2.1 Cynllun Ariannol Tymor Canolig 2013-14 tan 2017-18.....	24
8.2.2 Cronfeydd Wrth Gefn, Mantolenni a Risgiau.....	25
8.2.3 Comisiynu.....	26
8.3 Asedau	27
8.4 Niferoedd yn y Gweithlu / Gwasanaeth	28
9.0 I Gloi	29
10.0 Rhestr o asiantaethau a ymatebodd i'r ymgynghoriad ar y Cynllun	29

1.0 Rhagair gan y Comisiynydd Heddlu a Throseddu

Am y tro cyntaf, ym mis Tachwedd 2012, cafodd Comisiynwyr Heddlu a Throseddu eu hethol ar draws Cymru a Lloegr. Am y tro cyntaf, gall pobl Dyfed-Powys ddylanwadu'n uniongyrchol ynglŷn â sut rydym yn cadw ein cymunedau'n ddiogel rhag troseddu. Does dim byd yn bwysicach na diogelwch ein cartrefi a'n teuluoedd.



Mae'r cynllun hwn yn nodi sut byddwn yn gwneud ein cymunedau'n fwy diogel yn ystod y 5 mlynedd nesaf. Mae'n sefydlu blaenoriaethau i'r heddlu ac eraill i fynd i'r afael â'r troseddu sy'n effeithio ar eich bywydau.

Gennych chi y daw'r blaenoriaethau hyn, gan bobl yn Llanelli, Llandrindod, Y Trallwng, Hwlfordd, Aberystwyth, Ceredigion a Chaerfyrddin a'r cymunedau ar draws Dyfed-Powys.

Cewch benderfynu pa mor dda maent wedi'u cyflawni yn yr etholiad nesaf, ym mis Mai 2016. Dyma'ch blaenoriaethau chi, yn wir ystyr y gair. Eich cynllun chi yw hwn.

Mae'r blaenoriaethau hyn yn canolbwyntio ar wasanaethau'r rheng flaen. Rhaid i ni ddarparu plismona hygyrch ac ymatebol sy'n canolbwyntio ar ein cymunedau. Rhaid i ni flaenoriaethu atal troseddu a diogelu'r rhai sy'n agored i niwed yn eu cartrefi ac ar y strydoedd. Rhaid ni ddwyn troseddwr gerbron y llysoedd.

Gallwn wneud mwy drwy gydweithio â'n partneriaid, meddwl mewn ffordd arloesol a thrwy ymaddasu. Mae'r blynyddoedd o'n blaenau'n cynnig cyfleoedd cyffrous. Yr un mwyaf cyffrous yw'r cyfle i ni i gyd wneud ein cymunedau'n lleoedd gwell a mwy diogel i fyw ynddynt.

Dyma'r camau cyntaf ar y llwybr hwnnw. Diolch i bawb sydd wedi cynnig eu safbwyntiau a chyfrannu at ddatblygiad y Cynllun hwn.

Christopher Salmon

Christopher Salmon

2.0 Crynodeb Gweithredol

Mae'r cynllun hwn yn gosod y blaenoriaethau heddlu a throseddu ar gyfer y cyfnod pum mlynedd 2013 - 18. Bydd yn cael ei adolygu'n flynyddol. Ei nod yw pennu'r cyfeiriad strategol ar gyfer y gwasanaeth heddlu ac asiantaethau eraill sydd ynghlwm â gwneud ein cymunedau'n ddiogel.

Blaenoriaethau

Mae ein blaenoriaethau'n canolbwyntio ar wneud ein bröydd yn ddiogel, diogelu dioddefwyr a gwario'n ddoeth, sef:

Blaenoriaeth Un	Atal a Mynd i'r afael â Throseddu
Blaenoriaeth Dau	Diogelu'r rhai sy'n agored i Niwed
Blaenoriaeth Tri	Dwyn Pobl gerbron y Llysoedd
Blaenoriaeth Pedwar	Gwella Mynediad i Wasanaethau'r Heddlu
Blaenoriaeth Pump	Sicrhau Safonau Proffesiynoldeb Uchel
Blaenoriaeth Chwech	Gwario'n Ddoeth

Cynnydd

Byddaf yn monitro cynnydd yn erbyn y blaenoriaethau hyn yn rheolaidd gan gyhoeddi adroddiadau'n unol â hynny. Cyhoeddir yr adroddiadau hyn yn drimisol, gydag adroddiad blynyddol bob mis Gorffennaf. Byddant yn cynnwys asesiad o'r cynnydd, gan gynnwys data ac ystadegau.

Byddwn yn cydweithio'n agos â phartneriaid ar draws y system cyfiawnder troseddol, gan gynnwys y rhai sydd yn darparu gwasanaethau rydym yn eu comisiynu. Byddaf yn craffu ar ein holl wariant, gan yr heddlu a darparwyr gwasanaethau allanol, yn unol â'r blaenoriaethau hyn.

Cyllideb

Mae cyllidebau'n aros yn dynn. Byddwn yn derbyn llai o arian gan y llywodraeth ganolog yn y blynyddoedd i ddod, yn unol â'r disgwyl. Mae hyn yn golygu y bydd angen i ni arbed mwy o arian. Mae'n rhaid i ni symud o ddarbodaeth i ail-greu. Mae gennym gyfle gwych i chwilio am ffyrdd newydd o wneud busnes ac adeiladu ar y gwelliannau presennol.

Rwyf wedi gwneud fy ngorau glas i leihau'r pwysau ar gyllidebau teuluoedd wrth bennu'r praesept. Mae'r setliad a gyrhaeddwyd yn heriol ond yn bosibl i'w gyflawni ac yn golygu cynnydd o 0.87% yn 2013 - 14. Mae hyn yn cyfateb i £98.178 miliwn neu £206.28 ar gyfer y cartref cyfartalog.

Rwyf yn anelu at gyfyngu codiadau yn y dyfodol o dan y ffigwr hwn, gan obeithio cytuno ar godiad sy'n agos i chwyddiant o 2015 ymlaen

3.0 Cyflwyniad

3.1 Beth fyddaf yn ei wneud?

Fy swyddogaeth fel Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys yw gweithredu fel llais y cyhoedd ar faterion plismona a throseddu. Rwyf yn gweithio drosoch chi. Rwyf yma i sicrhau bod eich barn yn cael ei chlywed.

Pan gychwynais ar y swydd fel eich Comisiynydd Heddlu a Throseddu, mi wnes i [Ddatganiad](#) y byddwn yn gwasanaethu'r holl bobl o fewn Dyfed-Powys. Rwyf yn ymroddedig i gadw at yr addewid hwnnw.

Byddaf yn cynrychioli eich barn wrth ddelio â'r Heddlu, partneriaid sy'n gysylltiedig â diogelwch cymunedol a'r sector gwirfoddol. Fy nghyfrifoldebau'n cynnwys:

- Dal y Prif Gwnstabl i gyfrif am gyflenwi gwasanaethau plismona;
- Penodi neu ddiswyddo'r Prif Gwnstabl;
- Cyhoeddi Cynllun Heddlu a Throseddu;
- Pennu praesept blynyddol y Dreth Gyngor (h.y. y rhan honno o'r Dreth Gyngor sy'n talu am wasanaethau plismona lleol);
- Cael a chynrychioli barn cymunedau;
- Ymgynghori â dioddefwyr troseddau;
- Cydweithredu â chyrrff cyfiawnder troseddol i ddarparu system cyfiawnder troseddol effeithlon ac effeithiol;
- Comisiynu gwasanaethau sy'n gallu helpu i wneud ein cymunedau'n fwy diogel.

Nid wyf yn gyfrifol am ymchwilio i droseddau - y Prif Gwnstabl sy'n aros yn gyfrifol am hynny. Fodd bynnag, fy swydd innau yw sicrhau bod y Prif Gwnstabl yn darparu gwasanaethau plismona sy'n diwallu anghenion y cyhoedd. Ceir mwy o fanylion am y berthynas rhwng y Prif Gwnstabl a'r Comisiynydd, a sut bydd ein swyddogaethau'n cael eu harfer, [yma](#). Gan mai swydd newydd yw fy swydd i, mae llawer yn aros i'w gadarnhau. Byddaf yn ymgynghori a chyhoeddi cynlluniau wrth iddynt ddatblygu.

Bydd Panel Heddlu a Throseddu'n craffu ar fy mhenderfyniadau a'm cyfrifoldebau. Gall y Panel wneud argymhellion i mi ar fy nghynigion ynglŷn â'r lefel praesept a'm dewis o Brif Gwnstabl. Gall hefyd roi fetu ar fy nghynigion cyntaf os oes mwyafrif o ddau draean. Mae'r Panel yn annibynnol ac yn derbyn cyngor a chymorth gweinyddol gan swyddogion sydd wedi'u cyflogi gan Gyngor

Sir Caerfyrddin. Am fwy o wybodaeth am Banel Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys, [cliciwch yma](#).

Ar ben hynny, mae Pwyllgor Archwilio'n rhoi sicrwydd annibynnol i'r Gwasanaeth Heddlu ac i'm Swyddfa o ran rheoli mewnol, adrodd a rheoli ariannol, rheoli risg yn ogystal â threfniadau gwrth-dwyll a llygredd. Ceir mwy o wybodaeth am y Pwyllgor Archwilio [yma](#).

Ar hyn o bryd, rydym yn trafod system atebolrwydd mewnol trylwyr sy'n caniatáu goruchwylio gwasanaethau plismona a throseddu'n agos a gadael i'r gwasanaethau hynny wneud penderfyniadau'n effeithiol. Rydym yn symud tuag at fwrdd rheoli sy'n rheoli cyllid, sy'n gallu dirprwyo adnoddau ac sydd ag atebolrwydd clir i'r cyhoedd. Y rhan rymusaf o'r atebolrwydd hwn yw gallu'r cyhoedd i ethol, neu fwrw allan ei Bennaeth, y Comisiynydd Heddlu a Throseddu.

3.2 Paramedrau'r Cynllun

Mae'r cynllun hwn yn cwmpasu'r pum mlynedd 2013-18, cyfnod sy'n mynd y tu hwnt i'm cyfnod innau yn y swydd. Mae'n pennu'r cyfeiriad strategol ar gyfer fy nghyfnod yn y swydd, ac yn darparu cyfeiriad hirdymor i'r gwasanaeth heddlu.

Byddaf yn adolygu'r cynllun yn flynyddol. Bydd hefyd yn cael ei adolygu os bydd unrhyw newidiadau'n cael eu gwneud i'r Gofyniad Plismona Strategol (GPS)¹ a gyhoeddir gan yr Ysgrifennydd Cartref.

Yn ei ffurf drafft, roedd y Cynllun hwn yn destun cyfnod ymgynghori. Defnyddiwyd hysbysiadau cyhoeddus er mwyn hysbysebu hyn, a gwahoddwyd rhanddeiliaid allweddol i fynegi eu barn. Lle bo'n berthnasol, mae'r safbwyntiau a roddwyd wedi'u cynnwys yn y Cynllun.

Cyflwynwyd y cynllun hwn i'r Panel Heddlu a Throseddu iddynt graffu arno a rhoi eu hargymhellion gerbron. Mae eu hargymhellion, ynghyd â'm hymateb, wedi'u cyhoeddi ar fy [ngwefan](#).

¹ Dogfen statudol a gyhoeddir gan yr Ysgrifennydd Cartref yw'r Gofyniad Plismona Strategol. Mae'n amlinellu'r bygythiadau cenedlaethol i'r DU a'r gofyniad o ran galluoedd i wrthsefyll y bygythiadau hynny.

3.3 Gwerthoedd craidd y Prif Gwnstabl

Mae'r Prif Gwnstabl wedi cyhoeddi cyfres o werthoedd craidd i Heddlu Dyfed-Powys sydd wrth galon pob dim a wna:

Nod cyffredinol Heddlu Dyfed-Powys yw:

"Diogelu Ein Cymunedau"

Ei Genhadaeth Strategol yw:

"Sicrhau diogelwch y cymunedau a'r unigolion ar draws ardal Heddlu Dyfed-Powys".

Ei Weledigaeth Strategol yw:

"Bod yn wasanaeth heddlu gweladwy a hygyrch sy'n cynnig y gwerth gorau am arian."

GWERTHOEDD	Disgrifiad
BALCHDER	Rydym yn falch i fod yn rhan o dîm Dyfed-Powys sy'n gwasanaethu ein cymunedau lleol.
PERCHNOGAETH	Os daw mater i'n sylw, a'n cyfrifoldeb ni ydyw, byddwn yn derbyn y cyfrifoldeb ac yn ymdrin ag ef.
GWRANDO	Rydym yn gwrandao ar ein cymunedau lleol.
GWELLA	Rydym yn ymdrechu i ddiweddarau a gwella'r gwasanaeth a ddarperir gennym
GOFALU	am Bawb a dangos ein bod yn ofalgar drwy ein gweithredoedd.

Mae'r gwerthoedd hyn yn cael eu tanategu gan bum amcan strategol sy'n cynnwys:

- Sicrhau bod pob cysylltiad yn cyfrif
- Ansawdd y gwasanaeth
- Gwerth am arian
- Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Hawliau Dynol
- Arweiniad

Defnyddir y blaenoriaethau hyn gan y Prif Gwnstabl i sbarduno'r gwaith a gallant newid dros amser.

Amlinellir ymrwymiad yr Heddlu i hyrwyddo amrywiaeth, cydraddoldebau a hawliau dynol yn ei **Gynllun Cydraddoldeb Strategol**.

4.0 Yr Ardal Leol, ein cymunedau a'u hanghenion

4.1 Yr Ardal Leol

Yn ddaearyddol, yr ardal heddlu fwyaf yng Nghymru a Lloegr yw Dyfed-Powys, gan ymestyn dros 52% o dir Cymru, 4,188 o filltiroedd sgwâr. Mae Heddlu Dyfed-Powys yn gwasanaethu pedair sir, sef Sir Gaerfyrddin, Sir Benfro, Ceredigion a Phowys. Mae'r ardal yn bennaf wledig, gyda rhai ardaloedd penodol sydd â phoblogaeth drefol ddwys. Mae'r ardal yn wynebu rhai heriau unigryw

sy'n gysylltiedig â dau borthladd pwysig a safleoedd ynni mawr yn Aberdaugleddau.

Mae gan y pedair sir ddiwydiant twristiaeth bywiog. Mae'r haf yn denu niferoedd mawr o dwristiaid i'n glannau hir a phrydferth. Mae'r boblogaeth yn y prif drefi arfordirol yn chwyddo yn ystod y misoedd hyn, gyda goblygiadau ar gyfer plismona troseddau a ffyrdd. Ar hyn o bryd, ein poblogaeth breswyl yw 515,114² neu 221,858 o aelwydydd.

4.2 Ein cymunedau

Mae cyfrifiad 2011 yn ein hysbysu bod ein poblogaeth yn Wyn³ yn bennaf, gyda dim ond 2.02% o'n poblogaeth yn dod o boblogaethau Duon a Lleiafrifoedd Ethnig - sefyllfa sy'n dangos cynnydd o 1.02% yn nata cyfrifiad 2001.

Mae proffil oedran ein cymuned yn dangos bod 17% o dan 16 oed, 61% o oedran gweithio, a 22% o oedran pensiwn (sydd wedi codi o 19% yn 2001). Mae'r ardal yn gyrchfan ymddeol poblogaidd.

O fewn Dyfed-Powys, siaredir Cymraeg gan 31% o bobl. Mae bron hanner trigolion Ceredigion (47%) a Sir Gaerfyrddin (43%) yn siarad Cymraeg, o'u cymharu â'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 19%.

Cristnogaeth yw prif grefydd ein cymunedau; mae 61.5% o'n poblogaeth yn dweud mai hon yw eu crefydd. Yn unol â'r darlun cenedlaethol, mae lefelau Cristnogaeth wedi gostwng ers y cyfrifiad diwethaf a gynhaliwyd yn 2001⁴, lle mae'r ganran o'n poblogaeth sy'n dweud nad oes crefydd ganddynt wedi cynyddu'n sylweddol⁵.

Mae ystadegau'n dangos bod 66% o'n poblogaeth yn economaidd weithgar. Y prif gyflogwyr yw'r fasnach gyfanwerthu a manwerthu, gweithgareddau sy'n ymwneud ag iechyd dynol a gwaith cymdeithasol ynghyd ag addysg ac adeiladu. Gyda'i gilydd, mae'r sectorau hyn yn cyfrif am 50% o'n poblogaeth sydd mewn gwaith.

Mae tair allan o'n pedair ardal awdurdod lleol yn derbyn arian Cydgyfeirio Ewropeaidd sydd wedi'i anelu at helpu busnesau newydd a busnesau sy'n bodoli eisoes i dyfu, mynd i'r afael â newid hinsawdd a gwella trafndiaeth.

Mae gan 33% o'n cymunedau anabledd neu broblem iechyd hirdymor sy'n cyfyngu ar eu gweithgareddau dydd-i-ddydd, o gymharu â chyfartaledd cenedlaethol o 18%.

² Yn seiliedig ar Ddata Cyfrifiad 2011.

³ Dywedodd 95.35% o'r boblogaeth eu bod yn wyn Seisnig / Cymreig / Albanaidd / Gwyddelig (Gogledd Iwerddon) / Prydeinig yng Nghyfrifiad 2011). Dywedodd 2.63% pellach o'n cymuned eu bod yn Wyn Gwyddelig / Sipsi neu Deithiwr Gwyddelig / Arall

⁴ Pryd y dywedodd tua 74% eu bod yn Gristnogion

⁵ O 17% i 28.5% o'r boblogaeth ers y cyfrifiad diwethaf yn 2001.

Gall niferoedd y gweithwyr mudol gynyddu yn y dyfodol os bydd ceisiadau cynllunio am ddatblygiadau ffermydd gwynt ym Mhowys a Sir Gaerfyrddin yn cael eu cymeradwyo.

4.3 Anghenion Cymunedau

Daearyddiaeth yw'r her fawr i ni. Yn aml, gall pobl deimlo'n ynysig mewn ardaloedd gwledig, rhywbeth sy'n gwaethygu'r ofn sydd arnynt o ran troseddu ac mae'r arwahanrwydd hwn yn cynyddu'r potensial ar gyfer dwyn peiriannau fferm gwerthfawr, olew gwresogi a disel, da byw a metel ynghyd â thipio, pori a hela anghyfreithlon.

Mae camddefnyddio cyffuriau ac alcohol, twyll ar y rhynggrwyd / aflonyddu, bwlio a dwyn ffonau symudol / cyfrifiaduron i gyd yn effeithio ar bobl ifainc ar draws y pedair sir, hyd yn oed yn yr ardaloedd mwyaf gwledig.

Mae pobl hŷn yn arbennig o agored i fyrgleriaethau tynnu sylw, twyll a cham-drin.

O fewn ein pedair sir mae gennym nifer o gymunedau sydd ag anghenion penodol. Mae'r rhain wedi'u hadnabod fel:

- Sipsiwn a Theithwyr;
- Y rheini sy'n cael eu targedu ac yr aflonyddir arnynt ar sail eu hanabledd (aflonyddu sy'n gysylltiedig ag anabledd), cyfeiriadedd rhywiol, hunaniaeth o ran rhywedd, neu unrhyw nodweddion gwarchoddedig eraill.

Mae gan Heddlu Dyfed-Powys Gynllun Cydraddoldeb Strategol sy'n adnabod nifer o amcanion i gefnogi cymunedau ag anghenion penodol. Yn benodol, byddwn yn:

1. Cynyddu ymddiriedaeth a hyder Sipsiwn a Theithwyr yn yr Heddlu i ddarparu gwell plismona.
2. Sicrhau bod stopio a chwilio yn digwydd yn gyfreithlon, heb fod yn anghymesur, yn wahaniaethol nac yn andwyol i gysylltiadau o fewn a rhwng ein cymunedau.
3. Atal aflonyddu, cam-drin a thrais rhag gwaethygu a diogelu dioddefwyr rhag niwed pellach, yn arbennig mewn cysylltiad ag achosion risg uchel o aflonyddu sy'n gysylltiedig ag anabledd.
4. Cynyddu hyder pobl i riportio troseddau a digwyddiadau casineb, yn enwedig mewn cysylltiad ag anabledd.
5. Cynyddu hyder pobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsrywiol i riportio troseddau.

Rydym yn ymrwymedig i amcanion tebyg o fewn yr Heddlu.

Er mwyn hysbysu ymhellach fy nealltwriaeth o anghenion y gymuned, byddaf yn cydweithio'n agos â Byrddau Gwasanaethau Lleol⁶ (ceir mwy o wybodaeth am y Byrddau hyn yn adran 7.1). Mae canllawiau Llywodraeth Cymru yn gofyn bod y Byrddau'n ymgymryd ag asesiad anghenion ar y cyd. Bydd yr asesiad yn galluogi Byrddau Gwasanaethau Lleol i:

- Rannu cudd-wybodaeth
- Sefydlu blaenoriaethau clir
- Rhoi gwybodaeth yn sail i gomisiynu gwasanaethau
- Asesu effaith mentrau dros amser
- Monitro anghenion newidiol y boblogaeth o hyd

Yn sgil cyhoeddi cyd-asesiadau anghenion y pedwar Bwrdd, byddaf yn siarsio'r Prif Gwnstabl i adolygu Cynllun Cydraddoldeb Strategol yr Heddlu i sicrhau ei fod yn cydnabod canfyddiadau'r pedwar asesiad.

5.0 Fy Mlaenoriaethau

Un amcan sydd i'r blaenoriaethau hyn: i wneud ein cymunedau'n ddiogel.

Mae gan bobl ar draws Dyfed-Powys bryderon am ymddygiad gwrthgymdeithasol, cyffuriau a thrais. Gall ein cymunedau gwledig deimlo'n ynysig ac yn agored i fyrgleriaethau, gangiau teithiol a thipio anghyfreithlon. Mae angen diogelu ein ffyrdd rhag gyrwyr peryglus.

Mae'r blaenoriaethau hyn yn adlewyrchu fy ymroddiadau maniffesto. Maent hefyd yn tynnu ar drafodaethau â'r bobl yr effeithir arnynt, ymgynghori helaeth a phrofiad gwerthfawr o fewn y gwasanaeth heddlu. Maent yn tynnu ar Ddatganiad Etifeddiaeth yr Awdurdod Heddlu sydd wedi bod o fudd mawr ynghyd â gwybodaeth o arolygon. Gellir darllen adroddiad sy'n manylu'r holl wybodaeth a ystyriwyd ar fy [ngwefan](#).

Rwyf hefyd wedi talu sylw manwl i flaenoriaethau ein partneriaid, awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru. Dim ond drwy gydweithio y gallwn gyflenwi'r hyn a ddisgwylir gan ein cymunedau.

Hefyd, mae gan y Prif Gwnstabl a minnau ddyletswydd i ddiwallu anghenion plismona cenedlaethol, a nodir yn y [GPS](#). Adlewyrchir yr ystyriaethau hyn yma a thrwy'r Cynllun cyfan. Fy mlaenoriaethau yw:

Blaenoriaeth Un – Atal a mynd i'r afael â digwyddiadau a throeddau

Mae atal troeddu'n fwy effeithiol na delio â'i effeithiau. Byddaf yn gweithredu er mwyn atal y troeddau hynny sy'n achosi'r niwsans a'r niwed mwyaf i gymunedau. Rwyf am wneud yn siŵr yr ymdrinnir â dioddefwyr yn briodol a'u

⁶ Mae Byrddau Gwasanaethau Lleol yn cynnwys arweinwyr a phrif weithredwyr o sefydliadau allweddol, cynrychiolwyr o'r sectorau gwirfoddol a chymunedol ac uwch was sifil o Lywodraeth Cymru.

bod yn cael eu hysbysu'n gyson ynglŷn â'r cynnydd a wneir ar eu hachos. I gyflawni'r flaenoriaeth hon, byddaf yn sicrhau:

- Mai'r prif ffocws i'r heddlu a'i bartneriaid yw atal ymddygiad gwrthgymdeithasol a throseddau, yn enwedig ynglŷn â'r meysydd hynny sy'n peri'r risg / niwed mwyaf i'n cymunedau⁷.
- Bod yr Heddlu, partneriaid ac asiantaethau eraill yn ymyrryd yn gynnar er mwyn atal plant a phobl ifainc rhag troseddau, a helpu oedolion i dorri'r cylch ail-droseddau.
- Bod asiantaethau sy'n gyfrifol am gofnodi achosion o ymddygiad gwrthgymdeithasol yn gwneud hynny mewn ffordd gydgysylltiedig;
- Bod dioddefwyr yn cael eu hysbysu'n gyson am y cynnydd a wneir ar eu hachos (yn enwedig pobl sy'n agored i niwed);
- Bod pob asiantaeth yn chwarae ei rhan mewn modd cydlynol er mwyn atal goryrru, gyrru peryglus a gwrthdrawiadau traffig ffyrdd.

Wrth wneud hyn, rwyf yn ymrwymo i:

- Sicrhau bod gwybodaeth ar gael i chi am droseddau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol a fydd yn caniatáu i chi farnu effeithiolrwydd camau gweithredu ar gyfer atal troseddau.
- Dal y Prif Gwnstabl i gyfrif am fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol, a'r meysydd trosedd hynny sy'n achosi'r niwed mwyaf.
- Adolygu partneriaethau presennol i geisio opsiynau newydd ar gyfer adnabod ffyrdd y gallwn weithio yn well i atal troseddau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol.
- Ymgynghori â dioddefwyr ynglŷn â sut maent yn cael eu hysbysu'n gyson er mwyn datblygu cyfathrebu sy'n diwallu eu hanghenion yn well.
- Cyfarwyddo'r Prif Gwnstabl i ddatblygu strategaeth diogelwch ar y ffyrdd, ar y cyd â phartneriaid, sy'n seiliedig ar gymunedau lleol ac sy'n canolbwyntio ar leihau goryrru, gyrru gwrthgymdeithasol a gwrthdrawiadau traffig ffyrdd.

Blaenoriaeth Dau – Diogelu Pobl sy'n Agored i Niwed

Rhaid i ni ddiogelu pobl sy'n agored i niwed yn ein cymunedau. Drwy hyn, rwyf yn golygu bod angen i'r Heddlu, partneriaid a'r gymuned fedru adnabod, hysbysu a diogelu'r rheini a allai fod yn arbennig o agored i ddod yn dioddefwyr trosedd. Rwyf am sicrhau yr ymdrinnir â phroblemau'n fuan er mwyn atal cam-drin rhag mynd o ddrwg i waeth. Wrth gyflawni'r flaenoriaeth hon, byddaf yn sicrhau:

- Bod yr Heddlu a'i bartneriaid yn gwella ymwybyddiaeth o bobl sy'n agored i niwed yn ein cymuned;

⁷ Pennir bygythiad a niwed gan Aseidiadau Strategol yr ymgymerrir â nhw gan y Gwasanaeth Heddlu a'r Byrddau Gwasanaethau Lleol. Bydd y rhain yn newid dros amser.

- Bod pobl sy'n agored i niwed ac efallai i ddod yn ddiodefwr, neu hyd yn oed i gyflawni trosedd neu ymddygiad gwrthgymdeithasol, yn cael eu helpu i'w diogelu eu hunain;
- Bod yr Heddlu, ei bartneriaid a'r gymuned yn gallu adnabod pobl sy'n agored i niwed ac sydd mewn angen;
- Bod y rheini sydd mewn angen yn cael eu cynorthwyo'n briodol er mwyn sicrhau nad yw problemau/cam-drin yn mynd o ddrwg i waeth;
- Bod diodefwr troseddau'n gallu cyrchu'r gefnogaeth sydd ei hangen o'r pwynt riportio i'r achos yn cael ei ddwyn i ben.

Wrth wneud hyn, rwyf yn ymrwymo i:

- Adolygu ffyrdd y mae'r Heddlu a'i bartneriaid yn ymgysylltu â phobl sy'n agored i niwed, yn eu haddysgu ac yn eu cefnogi fel y gellir atal troseddau cyn belled ag y bo modd.
- Sicrhau bod arferion gwaith effeithiol yn eu lle i reoli'r galw cynyddol, yn enwedig mewn cysylltiad ag atgyfeiriadau amddiffyn plant, rheoli troseddau rhyw ac adroddiadau am gam-drin domestig a throseddau casineb.
- Ymgynghori â diodefwr a chyhoeddi eu barn ynglŷn â sut maent wedi cael eu cefnogi ac ansawdd y gefnogaeth a dderbyniwyd er mwyn sicrhau bod y gwasanaethau'n cael eu comisiynu'n unol â'r angen.
- Datblygu perthynas â Llywodraeth Cymru a darparwyr Gofal Iechyd Lleol i sicrhau bod gwasanaethau sy'n effeithio ar blismona, yn enwedig mewn cysylltiad ag iechyd meddwl ac ymosodiadau rhywiol, yn diwallu anghenion y cymunedau ar draws ardal Dyfed-Powys yn ei chyfanrwydd.

Blaenoriaeth Tri – Dwyn pobl gerbron y llysoedd

Yr allwedd i atal troseddau yw sicrhau bod y rheini sy'n eu cyflawni'n wynebu cyfiawnder. Mae hyn yn golygu sicrhau bod diodefwr yn gallu dylanwadu ar sut y mae troseddwr yn cael ei gosbi, bod ffeil yr erlyniad o'r ansawdd uchaf posibl a bod patrymau aildroseddau'n cael eu torri. I gyflawni'r flaenoriaeth hon, byddaf yn sicrhau:

- Bod rhwymedïau cymunedol a dulliau cyfiawnder adferol eraill yn cael eu hestyn a'u defnyddio'n unol ag anghenion y diodefwr;
- Bod ffeiliau erlyn yr Heddlu a gyflwynir i Wasanaeth Erlyn y Goron o'r safon uchaf er mwyn gwella lefel yr erlyniadau llwyddiannus;
- Bod yr Heddlu'n canolbwyntio ar lefel y troseddau a ddygir gerbron y llysoedd yn hytrach na chyfraddau datrys yn unig;
- Bod yr Heddlu'n gweithio â phartneriaid i dorri'r cylch aildroseddau fel y gall achosion troseddau gael eu trin yn hytrach na delio â'i effeithiau o hyd ac o hyd;
- Bod mwy o wybodaeth ar gael ynglŷn â'r camau a gymerir yn erbyn troseddau.

Wrth wneud hyn, rwyf yn ymrwymo i:

- Ehangu'r defnydd o rwymedïau cymunedol a dulliau cyfiawnder adferol.
- Dal y Prif Gwnstabl i gyfrif am berfformiad o ran ansawdd ffeiliau'r heddlu a lefelau'r troseddau a ddygir gerbron y llysoedd.
- Adolygu'r dulliau partneriaeth presennol ac ymgysylltu ag amrediad ehangach o bartneriaid er mwyn lleihau aildroseddu.
- Cyhoeddi gwybodaeth leol am y camau a gymerir yn erbyn troseddwy'r fel y byddwch yn ymwybodol o'r cosbau a gafwyd.

Blaenoriaeth Pedwar – Gwella mynediad i wasanaethau plismona

Mae sicrhau mynediad i wasanaethau plismona'n hanfodol i hyder y gymuned. Mae gwybod bod yr Heddlu ar gael pan fydd eu hangen arnoch a gallu cysylltu â nhw mewn ffordd sy'n diwallu'ch anghenion, p'un ai byw mewn ardal drefol neu wledig ydych chi, yn cynnig sicrwydd i gymunedau. Wrth ganolbwyntio ar y flaenoriaeth hon, byddaf yn sicrhau:

- Eich bod yn gallu cael gafael yn yr Heddlu pan fydd eu hangen arnoch;
- Bod gennych amrywiaeth o ffyrdd o gysylltu â'r Heddlu sy'n diwallu'ch anghenion;
- Eich bod yn gallu cysylltu â Gwasanaethau Plismona yn y Gymraeg;
- Bod yr Heddlu'n ymateb i'ch galwad yn brydlon lle bo angen;
- Bod swyddogion heddlu a swyddogion cymorth cymunedol yn treulio mwy o'u hamser yn eu bröydd;
- Ein bod yn defnyddio cwnstabiliaid gwirfoddol a gwirfoddolwyr eraill lle mae eu hangen fwyaf arnom;
- Bod gan bobl sy'n byw mewn cymunedau gwledig yr un cyfleoedd i gyrchu gwasanaethau plismona a'r rheini mewn ardaloedd trefol.

Wrth wneud hyn, rwyf yn ymrwymo i:

- Gyhoeddi gwybodaeth am drafod galwadau ac ymateb i ddigwyddiadau fel y gallwch farnu drosoch eich hunain pa mor dda mae'r heddlu'n ymateb i chi.
- Cyhoeddi lefelau bodlonrwydd cymunedol a fydd yn dangos i chi pa mor fodlon y mae pobl sydd wedi defnyddio'r Heddlu yn teimlo.
- Dal y Prif Gwnstabl i gyfrif am sicrhau bod swyddogion heddlu a swyddogion cymorth cymunedol yn blaenoriaethu eu hamser mewn plismona bro.
- Cyfarwyddo'r Prif Gwnstabl i sefydlu strategaeth blismona wledig, a fydd yn sicrhau bod y rheini o gymunedau gwledig yn cael mynediad i'r gwasanaeth gorau posibl.
- Datblygu cyfleoedd i gynyddu hygyrchedd plismona trwy weithio ag asiantaethau eraill.
- Gwella'r ffordd yr ydym yn ymgynghori â holl sectorau'r gymuned, yn enwedig plant a phobl ifainc, i wneud yn siŵr bod eu hanghenion yn cael eu diwallu.

Blaenoriaeth Pump – Sicrhau safonau proffesiynoldeb uchel

Mae'r flaenoriaeth hon yn canolbwyntio ar sicrhau eich bod yn cael eich trin ag urddas a pharch. Os oes gennych achos i gwyno, rwyf am sicrhau eich bod yn gwybod sut i gwyno ac y gallwch fod yn sicr y bydd camau priodol yn cael eu cymryd. Wrth gyflawni'r flaenoriaeth hon, byddaf yn sicrhau:

- Eich bod yn cael eich trin ag urddas a pharch;
- Bod staff yn amlygu'r safonau proffesiynoldeb uchaf o sut maent yn gwisgo i sut maent yn delio â chi;
- Bod ymddygiad, anghwrteisi a pherfformiad staff yn cael eu cofnodi'n gywir a bod camau'n cael eu cymryd yn gyflym i ddelio â chwyn;
- Eich bod yn ymwybodol o'ch hawl i gwyno, os ydych wedi derbyn gwasanaeth anfoddhaol;
- Pan fyddwch yn cwyno, eich bod yn cael eich hysbysu'n gyson am ba gamau a gymerir ar gyfer ymchwilio i'ch cwyn. Ar ôl i'r ymchwiliad ddod i ben, byddwch yn cael eich hysbysu am y canlyniad;
- Bydd gennych fynediad i'm swyddfa swyddogol fel y gall eich llais gael ei glywed.

Wrth wneud hyn, rwyf yn ymrwymo i:

- Ddal y Prif Gwnstabl i gyfrif am sicrhau bod adolygiadau staff yn adlewyrchu perfformiad ac ymddygiad.
- Monitro cwynion a wneir yn erbyn swyddogion heddlu gan fynnu esboniadau gan y Prif Gwnstabl ynglŷn â'r camau a gymerir pan fydd materion tanberfformio neu ymddygiad yn dod i'r amlwg.
- Cyhoeddi'n eglur sut y gallwch gwyno, wrth bwy y dylech gwyno a'r camau a gymerir o ganlyniad.
- Darparu mynediad i'm swyddfa i chi drwy amrywiaeth o ffyrdd gan gynnwys cynnal cymorthfeydd cyhoeddus i roi'r cyfle i chi i siarad â fi'n uniongyrchol.
- Ymgynghori â chi fel y gallaf sicrhau bod eich anghenion yn cael eu diwallu.

Blaenoriaeth Chwech – Gwario'n ddoeth

Rydym yn wynebu her ariannol fawr, ond hefyd cyfle. Byddaf yn sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu cyflenwi'n gost-effeithiol. Bydd hyn yn cynnwys adolygiad o'r gwariant presennol a'r prosesau penderfynu a bwrw golwg ar gyfleoedd ychwanegol i wella gwerth am arian. I gyflawni'r flaenoriaeth hon, byddaf yn sicrhau:

- Bod salwch ac absenoldeb staff yn cael eu rheoli'n effeithiol;
- Bod biwrocratiaeth ddiangen yn cael ei lleihau cyn belled ag y bo modd;
- Bod systemau shifft a strwythurau staff yn diwallu anghenion y sefydliad;
- Bod yr holl wariant presennol yn cael ei adolygu a bod yr holl ddewisiadau i wella gwerth am arian yn cael eu hystyried gan gynnwys:
 - Edrych ar sut mae gwasanaethau cefnogi'n cael eu cyflenwi;

- Ymchwilio i'r cyfleoedd presennol a phosibl ar gyfer cydweithredu'n lleol, rhanbarthol ac yn genedlaethol;
- Edrych ar sut y mae'r cyllid a ddarperir ar hyn o bryd i'r Gwasanaeth Troseddau Ieuencid, y Rhaglen Ymyrraeth Cyffuriau a'r Gronfa Diogelwch Cymunedol yn cael ei ddefnyddio.

Wrth wneud hyn, rwyf yn ymrwymo i:

- Flaenoriaethu gwasanaethau'r rheng flaen er mwyn sicrhau bod gwasanaethau troseddu a phlisma'n cael eu cyflenwi'n gost-effeithiol.
- Craffu ar broffiliau gwerth am arian (a gyhoeddir gan Arolygiaeth Cwnstabiliaeth Ei Mawrhydi), er mwyn cymharu ein gwariant â heddluoedd eraill a helpu i adnabod unrhyw gyfleoedd posibl am fwy o gost-effeithiolrwydd.
- Adolygu'r gwariant presennol i sicrhau bod yr Heddlu'n gallu ateb yr her ariannol barhaus.
- Edrych ymhellach ar fentrau cydweithredu seiliedig ar achos busnes doeth.
- Sefydlu proses gomisiynu dryloyw a hygyrch sy'n diwallu anghenion lleol.
- Lleihau codiadau ym mhraesept yr Heddlu gydag uchelgais i'w leihau yn y dyfodol.

6.0 Monitro cynnydd

Er mwyn asesu cynnydd yn erbyn fy mlaenoriaethau, byddaf yn sefydlu system atebolrwydd trylwyr a fydd yn caniatáu goruchwyllo gwasanaethau plisma ac atal troseddu'n agos a gadael i'r gwasanaethau hynny wneud penderfyniadau'n effeithiol.

Byddaf yn dal y Prif Gwnstabl i gyfrif am berfformiad swyddogion heddlu a staff. Byddaf yn ystyried gwybodaeth gan ffynonellau annibynnol megis Arolygiaeth Cwnstabiliaeth Ei Mawrhydi, yn ogystal â chanfyddiadau gan archwilwyr mewnol ac allanol, a Chomisiwn Cwynion Annibynnol yr Heddlu. Byddaf yn cytuno ar amcanion clir â'r Prif Gwnstabl, o fewn paramedrau'r Cynllun hwn y gellir eu haddasu i anghenion cymunedol newidiol.

Byddaf yn cyhoeddi gwybodaeth i'ch helpu chi, y cyhoedd, i asesu'r graddau i bai rai y mae fy mlaenoriaethau'n cael eu cyflwyno. Byddaf yn cyhoeddi adroddiadau ar sail chwarterol a blynyddol a fydd yn eich galluogi i wneud eich asesiad eich hun.

Mae'r wybodaeth y byddaf yn ei chyhoeddi'n seiliedig ar ddeilliannau lefel uchel (yn hytrach na chanlyniadau gweithgarwch) a fydd yn asesu cynnydd a wnaed yn erbyn fy nghynllun, a bydd yn cynnwys:

6.1 Hyder y Cyhoedd

- Data hyder [Arolwg Troseddau Cymru a Lloegr](#)
- Data arolwg bodlonrwydd y cyhoedd

- Sylw yn y cyfryngau

Pa mor ddiogel y mae'r cyhoedd yn teimlo o fewn ein cymunedau, a'u hyder i riportio digwyddiad / trosedd a'i symud ymlaen drwy'r system cyfiawnder troseddol yw gwir fesur llwyddiant cyflawni'r Cynllun hwn.

Byddaf yn monitro ac yn cyhoeddi canlyniadau canfyddiad y cyhoedd sydd yn cael eu coladu gan yr Arolwg Troseddau Cymru a Lloegr. Mae'r data hwn yn darparu asesiad annibynnol o ganfyddiad y cyhoedd. Bydd y data'n cael ei gyd-destunoli er mwyn eich galluogi i asesu sut y mae lefelau hyder o fewn Dyfed-Powys yn cymharu â rhannau eraill o'r wlad.

Byddaf hefyd yn monitro data a goladir yn lleol drwy amryw o arolygon er mwyn mesur lefel hyder y cyhoedd.

Bydd monitro sylw yn y cyfryngau ac ymgysylltu â'r cyhoedd yn arf ychwanegol ar gyfer mesur hyder y cyhoedd. Bydd pa mor gadarnhaol / negyddol yw hyn yn ddangosydd allweddol o ran mesur y graddau y mae fy Nghynllun yn cael ei gyflwyno.

6.2 Hygyrchedd a bodlonrwydd

- Lefelau bodlonrwydd dioddefwyr
- Data cwynion
- Data trin galwadau ac ymateb i ddigwyddiadau

Byddaf yn cyhoeddi data ynglŷn â bodlonrwydd dioddefwyr yn rheolaidd – gan ganiatáu i chi asesu ansawdd y gwasanaeth sy'n cael ei ddarparu gan yr Heddlu a'r System Cyfiawnder Troseddol.

Drwy arolygon a weinyddir yn lleol, gofynnir i ddioddefwyr trosedd nodi lefel eu bodlonrwydd â'r gwasanaeth y gwnaethant dderbyn o ran:

- Pa mor hawdd oedd hi i gysylltu â'r Heddlu
- Y camau gweithredu a gymerwyd gan yr Heddlu
- Y gwasanaeth dilynol a gynigiwyd gan yr Heddlu
- Y modd yr ymdriniodd yr Heddlu â'r dioddefydd
- Pa mor fodlon oedden nhw â'r gwasanaeth cyfan a gawsant

Ffordd arall o fesur bodlonrwydd yw lefel a natur y cwynion a wnaed yn erbyn yr Heddlu. Mae ystadegau ar gael yn chwarterol ar [wefan yr Heddlu](#) sy'n manylu lefel a natur cwynion gan y cyhoedd, ac achosion o gamymddwyn mewnol sy'n cael eu riportio yn erbyn swyddogion a staff yr heddlu. Bydd staff o'm swyddfa'n sicrhau ansawdd trawstoriad o gwynion er mwyn sicrhau y gwnaed ymchwiliadau llawn a phriodol.

Byddaf yn cyhoeddi manylion a chanlyniadau cwynion a dderbyniwyd gan fy Swyddfa maes o law.

Mae hygyrchedd gwasanaethau yn hanfodol ar gyfer bodlonrwydd y cyhoedd. O fewn fy Nghynllun, rwyf wedi ymrwmo i fonitro a chyhoeddi data ynghylch trin galwadau ac ymateb i ddigwyddiadau yn rheolaidd.

6.3 Trosedd a chyfiawnder

- Data trosedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol ar www.police.uk
- Gwybodaeth gymharol gan Arolygiaeth Cwnstabiliaeth Ei Mawrhydi
- Data Arolwg Troseddau Cymru a Lloegr ar y risg o ddiodef trosedd
- Gwybodaeth ynglŷn â lefelau'r troseddau sy'n cael eu dwyn i gyfiawnder
- Cyfraddau aildroseddu

Mae mesur atal troseddu yn dasg heriol. Nid yw mesurau llwyddiant o reidrwydd yn golygu bod troseddau a gofnodir wedi lleihau. Os oes gan ein cymunedau hyder yn yr heddlu a'r system cyfiawnder troseddol, byddant yn fwy parod i ddod ymlaen i riportio digwyddiad / trosedd. Gan hynny, ni ddylai, ac ni fydd, mesurau troseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol yn cael eu defnyddio ar ben eu hunain er mwyn mesur cyflwyniad llwyddiannus o'r amcanion a osodir o fewn y cynllun hwn.

Mae lefelau trosedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol a gofnodir eisoes ar gael i'r cyhoedd. Medrwyd gael mynediad at wybodaeth annibynnol ynghylch ymddygiad gwrthgymdeithasol a throsedd ar www.police.uk. Mae'r wefan hon yn gadael i chi gyrchu data am blismona o lawr gwlad a manylion am eich timoedd plismona bro lleol.

Mae Arolygiaeth Cwnstabiliaeth Ei Mawrhydi hefyd yn darparu ffynhonnell gwybodaeth fuddiol sy'n gadael i chi gymharu lefelau troseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol, ansawdd gwasanaethau, yn ogystal â chyllid (gan gynnwys cost plismona) a niferoedd gweithluoedd ar draws yr heddlu www.hmic.gov.uk/crime-and-policing-comparator.

Mae Arolwg Troseddau Cymru a Lloegr hefyd yn rhoi data ynglŷn â'r perygl y bydd unigolyn / cartref yn diodef trosedd. Yn aml, mae yna fwlch sylweddol rhwng nifer y troseddau a brofir a'r nifer sy'n cael eu riportio. Byddaf yn cyhoeddi data ynglŷn â'r perygl o ddiodef trosedd o Arolwg Troseddau Cymru a Lloegr ynghyd â lefelau troseddau sy'n cael eu riportio fel canran o'n poblogaeth. Bydd hyn yn dangos sut y mae'r bwlch o ran nifer y troseddau sy'n digwydd a nifer y troseddau sy'n cael eu riportio yn newid dros amser.

Rwyf am sicrhau bod y rhai sy'n gyfrifol am gyflawni troseddau'n cael eu dwyn i gyfiawnder. Mesur pwysig i'w fonitro mewn perthynas â throsedd yw canlyniadau troseddau a gyflawnir. Rwyf hefyd eisiau sicrhau y gall troseddwyr ddianc o'r cylch aildroseddu. Er mwyn cefnogi hyn, byddaf yn monitro ac yn cyhoeddi gwybodaeth am lefelau troseddau sy'n cael eu dwyn i gyfiawnder a lefelau aildroseddu sy'n digwydd o fewn ein hardal.

6.4 Cyfraniad partneriaid

- Sicrhau bod partneriaid / gwasanaethau a gomisiynwyd yn cyflwyno'r blaenoriaethau a nodir o fewn y cynllun hwn.

Ni all y gwasanaeth Heddlu gyflwyno cynnydd yn erbyn fy mlaenoriaethau ar ben ei hun. Rwy'n edrych ymlaen at sefydlu perthnasau gwaith gydag amrediad eang o asiantaethau sy'n effeithio ar atal trosedd, lleihau aildrosedd, ac yn diogelu ein cymunedau.

Disgwylir i asiantaethau neu sefydliadau sy'n derbyn cyllid wrthyf ddangos tystiolaeth ynghylch sut y bydd yr arian yn cynorthwyo cyflwyno fy mlaenoriaethau. Bydd monitro canlyniadau'n ffurfio rhan bwysig o'r broses honno. Bydd fy Swyddfa'n craffu arnynt yn fanwl er mwyn sicrhau y cyrhaeddir cynnydd.

Rwyf wedi amlinellu nifer o fesurau yr wyf wedi ymrwymo i'w monitro a'u cyhoeddi. Nid yw'r rhestr hon yn un gynhwysfawr. Craffir ar restr fanwl o fesurau diagnostig ar sail reolaidd a fydd yn siŵr o newid a datblygu yn ystod oes y Cynllun hwn. Fe'au defnyddir i annog cwestiynu'r Prif Gwnstabl / partneriaid, neu ar gyfer amlygu'r angen am waith adolygu arall. Cyhoeddir manylion am ganlyniadau'r gwaith adolygu yn fy adroddiad blynyddol neu ar adeg briodol yn ystod y flwyddyn.

7.0 Y darlun troseddu, diogelwch cymunedol a chyfiawnder troseddol ehangach

Tra bydd y gwasanaeth Heddlu'n chwarae rôl allweddol wrth gadw ein cymunedau'n ddiogel, mae dyletswyddau ar fyrdd o sefydliadau eraill sy'n effeithio ar blismona, troseddu a chyfiawnder. Rhaid i'r sefydliadau hyn gydweithio i atal troseddu, lleihau aildrosedd a diogelu ein cymunedau. Nodir rhai cysylltiadau yn y gyfraith ac mae eraill wedi'u meithrin o fod â dyletswyddau a rennir.

Drwyddi draw yn fy mlaenoriaethau, rwyf yn amlinellu fy mwriad i weithio'n agosach â phartneriaid ac asiantaethau fel y gellir cyflenwi gwasanaethau ar ffurf ddoethach. Mae'r paragraffau a ganlyn yn darparu trosolwg ar y partneriaethau sydd ar waith ar hyn o bryd o fewn y darlun troseddu, diogelwch cymunedol a chyfiawnder troseddol ehangach. Byddaf yn gweithio â'r rhain ac eraill i ddarparu gwasanaethau atal a chefnogi heddlu a throseddau effeithiol ac effeithlon i gymunedau Dyfed-Powys.

7.1 Byrddau Gwasanaethau Lleol

Mae Byrddau Gwasanaethau Lleol (BGLI) yn cynnwys uwch-gynrychiolwyr sefydliadau cyhoeddus a thrydydd sector lleol sy'n cydweithio i gynllunio a goresgyn rhwystrau ac atalfeydd er mwyn sicrhau bod gwasanaethau ym mhob sir yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n rhoi'r cyhoedd yn gyntaf.

Ceir mwy o wybodaeth am bob Bwrdd drwy'r dolenni isod:

- [Bwrdd Gwasanaethau Lleol Sir Gaerfyrddin](#)
- [Bwrdd Gwasanaethau Lleol Sir Benfro](#)
- [Bwrdd Gwasanaethau Lleol Powys](#)
- [Bwrdd Gwasanaethau Lleol Ceredigion](#)

7.2 Partneriaethau Diogelwch Cymunedol (PDC)

Mae Partneriaethau Diogelwch Cymunedol wedi hen ennill eu plwyf ym mhob un o'r pedwar Awdurdod Lleol yn Nyfed-Powys. Mae'r bartneriaeth yn cynnwys ystod o sefydliadau gan gynnwys yr Heddlu, y Gwasanaeth Tân, y Gwasanaeth Prawf, Byrddau Iechyd ac Awdurdodau Lleol. Nod y bartneriaeth yw cydweithio i leihau troseddu, anhrefn ac aildroseddu.

O fis Ebrill 2013, bydd peth o'r cyllid a ddarparwyd gynt yn uniongyrchol i'r Partneriaethau, yn cael ei drosglwyddo i'm cyllideb i. Bydd y gyllideb hon yn rhoi i mi'r hyblygrwydd i gomisiynu gwasanaethau diogelwch cymunedol yn unol ag anghenion lleol.

Ceir mwy o wybodaeth am bob partneriaeth drwy'r dolenni isod:

- [Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Sir Gaerfyrddin](#)
- [Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Sir Benfro](#)
- [Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Ceredigion](#)
- [Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Powys](#)

7.3 Partneriaethau Plant a Phobl Ifainc (PPPhI)

Yn yr un modd â PDC, mae Partneriaethau Plant a Phobl Ifainc yn cael eu sefydlu ar sail sirol. Pwrpas y bartneriaeth yw gosod cyfeiriad strategol clir i wasanaethau sy'n cefnogi plant a phobl ifainc. Mae rôl statudol gennyf gyda'r Bartneriaeth hon, ynghyd â sefydliadau eraill, gan gynnwys yr Heddlu, Awdurdodau Lleol, Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol, Byrddau Iechyd, Gwasanaethau Tân ac Achub, Ymddiriedolaeth Prawf Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru, y Gwasanaeth Atal Troseddau Ieuencid ac fel arfer cynrychiolydd penaethiaid ysgol.

Ceir gwybodaeth am bob partneriaeth trwy'r dolenni isod:

- [Partneriaeth Plant a Phobl Ifainc Sir Gaerfyrddin](#)
- [Partneriaeth Plant a Phobl Ifainc Sir Benfro](#)
- [Partneriaeth Plant a Phobl Ifainc Ceredigion](#)
- [Partneriaeth Plant a Phobl Ifainc Powys](#)

7.4 Cyrff Cyfiawnder Troseddol

Rhan o'm rôl yw cydweithio â'r sefydliadau sy'n ffurfio'r system cyfiawnder troseddol, gan gynnwys Gwasanaeth Erlyn y Goron, Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi, Gwasanaeth Carchardai Ei Mawrhydi, Timau Troseddau Ieuencid, Y Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid ac Ymddiriedolaeth Prawf

Cymru. Gyda'n gilydd, byddwn yn sicrhau bod y system cyfiawnder troseddol gyffredinol yn effeithiol ac yn cael ei chanolbwyntio'n fwy ar ddioddefwyr. Ceir mwy o wybodaeth am y sefydliadau hyn trwy fynd at y dolenni isod.

- [Gwasanaeth Erlyn y Goron](#)
- [Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi](#)
- [Ymddiriedolaeth Prawf Cymru](#)
- [Gwasanaeth Carchardai Ei Mawrhydi](#)
- [Timau Troseddau Ieuencid](#)
- [Y Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid](#)

7.5 Grwpiau Gwirfoddol

Mae gan Grwpiau Gwirfoddol rôl bwysig i'w chwarae wrth ddiogelu ein cymunedau. Gallant gynnig gwasanaethau sy'n cefnogi dioddefwyr, yn adfer troseddwr ac mae ganddynt beth wmbredd o arbenigedd rwyf am ei ddefnyddio i gynorthwyo wrth gyflawni fy mlaenoriaethau. I gyflawni hyn, rwyf yn awyddus i sefydlu cysylltiadau â chymdeithasau gwirfoddol yn y rhanbarth a meithrin perthynas â chyrrff eraill sy'n gallu helpu yn y frwydr yn erbyn troseddu. Dyma fydd ffocws fy ymdrechion yn 2013. Ceir rhagor o wybodaeth ynglŷn â'r cyrrff sy'n cefnogi grwpiau gwirfoddol drwy'r dolenni isod:

- [Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Gaerfyrddin](#)
- [Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Powys](#)
- [Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Ceredigion](#)
- [Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro](#)
- [Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru](#)

7.6 Fforymau Sefydledig

Yn ychwanegol at y partneriaethau a amlinellir uchod, ceir nifer o drefniadau partneriaeth sefydledig eraill sy'n canolbwyntio ar gydweithio i sicrhau gwasanaethau effeithiol ac effeithlon. Er enghraifft, mae'r Bwrdd Uwch Reolwyr Amlasiantaethol er Diogelu'r Cyhoedd yn dwyn at ei gilydd nifer o wasanaethau cyhoeddus i reoli troseddwr rhyw a threisgar mynych. Byddaf yn sicrhau ein bod yn cydweithio'n agos â'r cyrrff hyn i wella diogelwch a chydnerthedd y cyhoedd.

7.7 Y Bwrdd Partneriaeth

Er mwyn cefnogi a hysbysu partneriaethau am y newidiadau i drefniadau llywodraethu'r heddlu, sefydlodd y cyn-Awdurdod Heddlu Fwrdd Partneriaeth. Mae'r Bwrdd yn cynnwys y rhan fwyaf o'r asiantaethau y sonnir amdanynt uchod. Yn ystod y misoedd sydd ar ddod, byddaf yn ystyried y ffordd orau y gallwn ddefnyddio'r grŵp hwn i gefnogi cyflawni fy mlaenoriaethau ymhellach.

8.0 Adnoddau

8.1 Beth sydd gennym i'w wario

Mae'r gyllideb blismona gyflawn yn cynnwys cyllid o nifer o ffynonellau. Derbynnir y gyfran fwyaf gan y Swyddfa Gartrefa Llywodraeth Cymru ynghyd â'r arian sy'n cael ei godi drwy'ch cyfraniadau i'r Dreth Gyngor. Felly, mae angen i ni fod yn ymwybodol o rai ystyriaethau allweddol wrth gynllunio ar gyfer yr hyn sydd gennym i'w wario dros y pum mlynedd nesaf:

8.1.1 Setliad ar gyfer Heddlu Dyfed-Powys 2013-14 a thu hwnt

Yn ei ddatganiad ar gyfer yr Hydref a gyhoeddwyd ar 5 Rhagfyr 2012, cadarnhaodd y Canghellor y bydd pwysau ar arian cyhoeddus yn parhau dros y blynyddoedd sydd ar ddod. Ar 19 Rhagfyr 2012, cyhoeddodd yr Ysgrifennydd Cartref y byddai cymorth grant y Llywodraeth Ganolog i Heddlu Dyfed-Powys yn gostwng 1.6% yn 2013/14. Mae hyn yn hafal i ostyngiad pellach yn y grant canolog o £0.874 miliwn dros y flwyddyn nesaf, gan fynd â chyfanswm y gostyngiad yn y grant i 13.9% neu £8.7M ers 2010/11.

Ni chafwyd cyhoeddiad mewn cysylltiad â setliadau o 2014/15 ymlaen. Mae hyn yn cyflwyno cryn dipyn o ansicrwydd o ran cyllid i'r dyfodol. Mae swm y cyllid sydd ar gael i mi dros y pum mlynedd nesaf wedi'i amcangyfrif ac fe'i nodir yn y tabl isod.⁸

Ffynhonnell Gyllid	2012 -13	2013-14	amcangyf rifwyd 2014-15	amcangyf rifwyd 2015-16	amcangyf rifwyd 2016-17	amcangyf rifwyd 2017-18
	£M	£M	£M	£M	£M	£M
Y Swyddfa Gartref	38.4	39.8	38.7	37.9	37.2	36.4
Ardrethi annomestig	15.5	14.1	13.7	13.4	13.1	12.8
Grant Cynnal Refeniw	0.2	0.9	0.9	0.9	0.9	0.9
Cronfa Plismona Bro	1.6	0	0	0	0	0
Cyfanswm Grantiau Canolog	55.7	54.8	53.3	52.2	51.2	50.1
		-1.6%	-2.8%	-2%	-2%	-2%

8.1.2 Pwysau costau sy'n effeithio ar Gyllidebau 2013-14 tan 2017-18

Bydd rhewiad cyflog yn y sector cyhoeddus i swyddogion heddlu a staff yn dod i ben yn 2013-14. Bydd chwyddiant nad yw'n gyflog yn erbyn rhai categorïau o wariant hefyd yn rhoi pwysau pellach ar gyllidebau'r heddlu. Rydym yn

⁸ Rhagdybiwyd y bydd gostyngiadau ariannu'n parhau ar -2.8% ar gyfer 2014-15 a -2% ar ôl hynny oherwydd bwriad y Gweinidog i gynnal adolygiad sylfaenol o Ariannu'r Heddlu.

amcangyfrif y bydd y codiadau hyn oddeutu £1.3 miliwn yn 2013/14 a 2014/15, gan godi ymhellach i £1.5 miliwn yn 2015-16 ac i £1.7 miliwn yn 2016-17 a 2017-18.

Yn ychwanegol at y rhain, ceir pwysau costau sylweddol sy'n effeithio ar wariant penodol a phenawdau incwm y mae angen eu talu ar sail gylchol. Mae'r tabl isod yn dangos crynodeb o'r pwysau costau sy'n effeithio ar gyllidebau rhwng 2013-14 a 2017-18⁹.

	2013-14	2014-15	2015-16	2016-17	2017-18
	£M	£M	£M	£M	£M
Cyllideb sylfaenol	97.3	100.3	102.8	104.7	106.7
Codiadau cyflog	0.8	0.9	1.2	1.4	1.4
Chwyddiant nad yw'n gyflog	0.5	0.4	0.3	0.3	0.3
Codiadau cyflog a chwyddiant	1.3	1.3	1.5	1.7	1.7
Pwysau cost penodol	1.0	0.9	0.4	0.3	0.3
Twf mewn gwasanaethau	0.7	0.3	0.0	0.0	0.0
	3.0	2.5	1.9	2.0	2.0
Cyllideb cyn gostyngiadau costau	100.3	102.8	104.7	106.7	108.7

8.1.3 Gwelliannau Gwerth am Arian a geisir yn 2013-14 tan 2017-18

Gyda'r pwysau ar arian i barhau mor belled ag y gellir gweld i'r dyfodol, mae angen i ni adeiladu ymhellach ar y cynnydd a wnaethpwyd yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Byddaf yn sicrhau bod y ffordd rydym yn cynnal ein busnes yn gadael i ni ateb yr heriau hyn a galwadau newidiol ein hoes. Golyga hyn gyflenwi'r gwasanaethau rydym yn eu cynnig am gost is mewn ffordd sy'n gynaliadwy yn y tymor hir.

Mae'r tabl isod yn nodi'r gostyngiadau cost cylchol cronol sydd yn yr arfaeth ar gyfer y cyfnod 2013-14 tan 2017-18:


Penawdau	2013-14	2014-15	2015-16	2016-17	2017-18
	£M	£M	£M	£M	£M

⁹ Mae'r tabl isod hefyd yn cynnwys darpariaeth ar gyfer peth twf yng nghyllideb yr Heddlu i ddarparu ar gyfer rhywfaint o welliannau yn y gwasanaethau plismona i'r cyhoedd mewn meysydd megis Plismona Bro a Rheoli Troseddwyd dros y ddwy flynedd sydd ar ddod.

CLIC yr Awdurdod ¹⁰	-1.6	-2.0	-2.4	-2.8	-3.2
CLIC Ychwanegol y Comisiynydd ¹¹	-0.5	-2.5	-3.5	-4.7	-5.8
Cyfanswm cronrol	-2.1	-4.5	-5.9	-7.5	-9.0
Cyfanswm cylchol blynyddol	-2.1	-2.4	-1.4	-1.6	-1.5
Gofyniad y Gyllideb	98.2	98.3	98.8	99.2	99.7
% Cynnydd y Gyllideb	0.87%	0.12%	0.49%	0.47%	0.52%

8.1.4 Praeseptau'r Dreth Gyngor ar gyfer 2013-14 tan 2017-18

Wrth osod yr elfen heddlu o'r Dreth Gyngor (a adwaenir fel y praesept), rwyf wedi bod yn ymwybodol o gydbwyso'r pwysau ar gyllidebau aelwydydd yn erbyn yr angen i ddarparu gwasanaeth heddlu effeithiol. Mae'r tabl isod yn dangos lefel y codiad yn y praesept a bennwyd gan yr Awdurdod Heddlu gynt ers 2002/3.



Yn fy mlaenoriaethau (blaenoriaeth 6) ceir manylion fy mwriad i leihau codiadau ym mhraesept y dreth gyngor. O gofio hyn, rwyf yn cynnig gosod lefel praesept o £43.4M ar gyfer 2013/14 gan godi i £49.6M erbyn 2017/18. Golyga hyn y bydd eiddo Band D cyfartalog yn cyfrannu £206.28 i blismona yn 2013/14.

Gosodir praesept y dreth gyngor bob blwyddyn ac mae'n destun craffu gan y Panel Heddlu a Throseddu. Mae'r tabl drosodd yn dangos lefel y praesept a gynnigir ar gyfer 2013/14 a rhagolwg ar y lefel y mae'n fwriad gennyf ei gosod ar gyfer pob blwyddyn olynol:

¹⁰Mae hyn yn dangos yr ymrwymadau lleihau costau a gynlluniwyd gan y cyn-Awdurdod Heddlu.

¹¹ Mae hyn yn dangos lefel y gostyngiadau y mae'r Comisiynydd wedi'i gynllunio uwchlaw'r ymrwymadau a osodwyd gan y cyn-Awdurdod Heddlu.

Praesept Rhagdybiedig	12/13¹²	13/14	14/15	15/16	16/17	17/18
Cyfartaledd ar gyfer Band D	198.54	206.28	212.67	218.43	223.92	229.50
% Cynnydd blwyddyn ar ôl blwyddyn	5%	3.9%	3.1%	2.7%	2.5%	2.5%
% Cyfanswm y cyllid	43%	44%	46%	47%	48%	50%

Bydd y cyfanswm a godir drwy braesept y dreth gyngor yn cynrychioli 44% o'r holl gyllideb blismona ar gyfer 2013/14.

8.2 Beth rydym yn ei wario

8.2.1 Cynllun Ariannol Tymor Canolig 2013-14 tan 2017-18

I gefnogi cynllunio ariannol, rwyf wedi gosod cynllun ariannol tymor canolig ar gyfer y ddwy flynedd nesaf. Dangosir y cynllun ariannol hwn isod ar gyfer fy swyddfa fy hun ac ar gyfer darparu gwasanaethau plismona:

¹² Gosodwyd gan y cyn-Awdurdod Heddlu

Cyllidebau Refeniw Blynyddol 2011/12 tan 2017/18

	2011/12	2012/13	2013/14	2014/15	2015/16	2016/17	2017/18
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
<u>Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd / Yr Awdurdod Heddlu</u>							
Cyllidebau cysylltiedig â chyflog	373	369	463	474	480	487	495
Cyllidebau nad ydynt yn Gyflog	571	526	331	322	313	304	295
Cyfanswm y Gyllideb	944	895	794	796	793	791	790
<u>Y Prif Gwnstabl</u>							
Cyllidebau cysylltiedig â Chyflog	88,825	87,067	87,851	88,234	88,809	89,530	90,274
Cyllidebau nad ydynt yn Gyflog	9,163	9,373	9,533	9,270	9,176	8,918	8,695
Cyfanswm y Gyllideb	97,988	96,440	97,384	97,504	97,985	98,448	98,969
Cyfanswm y Gyllideb Gyfun	98,932	97,335	98,178	98,300	98,778	99,239	99,759
<u>Cyfanswm Ariannu Refeniw¹³</u>							
Grant yr Heddlu	-40,808	-38,388	-39,828	-38,713	-37,938	-37,180	-36,436
Grant Plismona Bro	-1,595	-1,637	0	0	0	0	0
Ardrethi annomestig	-13,401	-15,486	-14,033	-13,640	-13,367	-13,100	-12,838
Grant Cynnal Refeniw	-3,714	-166	-943	-917	-899	-880	-863
Praesept	-39,414	-41,658	-43,374	-45,030	-46,574	-48,079	-49,622
Cyfanswm Ariannu Refeniw	-	-	-	-	98,778	-	-
	98,932	97,335	98,178	98,300	98,778	99,239	99,759

8.2.2 Cronfeydd Wrth Gefn, Mantolenni a Risgiau

Er mwyn ateb heriau ariannol posibl yn y dyfodol, rydym wedi asesu penawdau cyllideb a digonolrwydd y cronfeydd cyffredinol presennol wrth gefn. Mae'r dadansoddiad hwn yn argymhell bod lefel y cronfeydd cyffredinol yn cael ei chynnal ar £4.5m – gan gynrychioli 4.7% o gyllideb gwariant refeniw net arfaethedig 2013/14. Ar ôl ystyried hyn, ynghyd â lefel y gostyngiadau cyllideb arfaethedig yn y pedair blynedd ariannol nesaf, rwyf wedi cymeradwyo'r lefel hon i'w dal yn y cronfeydd at y tri phrif ddiben a ganlyn:

- er mwyn helpu i glustogi effaith llif arian anwastad ac osgoi benthyca diangen dros dro
- er mwyn clustogi effaith digwyddiadau neu achosion brys annisgwyl
- er mwyn talu rhwymedigaethau hysbys neu a ragwelir

¹³ Bydd yr wybodaeth hon yn cael ei diweddarau ar ôl i'r Panel Heddlu a Throsedd ystyried lefel praesept y dreth gyngor sydd i'w gosod.

Ceir manylion y prif gronfeydd refeniw wrth gefn a ddelir ar hyn o bryd yn y tabl sy'n dilyn:

Cronfa Wrth Gefn	Gweddill 31 Mawrth 2011	Trosglwy ddiadau allan 2011/12	Trosglwy ddiadau mewn 2011/12	Gweddill 31 Mawrth 2012	Disgrifiad
	£'000	£'000	£'000	£'000	
Cronfa Costau Pensiwn	1,441	0	0	1,441	I liniaru unrhyw anwadalwch a achosir gan gyfandaliadau mewn cysylltiad ag iechyd gwael, ymddeoliadau cynnar a thaliadau am anafiadau.
Cronfa Yswiriant	750	(218)	218	750	Cronfeydd a ddelir i dalu rhwymedigaethau yswiriant posibl ac annisgwyl. Mae hyn yn gysylltiedig â'r waged/diffyg 31 Mawrth ar y cyfrif yswiriant mewnol.
Cronfa Cyflenwi Gwasanaethau Gweithredol	361	(66)	0	295	Cronfeydd wrth gefn sydd ar gael i gefnogi plismona lleol, ymateb patrôl/ i ddigwyddiadau a dalfeydd.
Cronfa Cymorth Gweithredol Ganolog	820	(187)	79	712	Cronfeydd a ddelir i gefnogi unedau heddlu arbenigol pan fydd angen offer arbenigol a hyfforddiant i ddelio â threfn gyhoeddus, digwyddiadau drylliau, argyfyngau sifil a phlismaona'r ffyrdd.
Cronfa Anweithredol Ganolog	1,080	(48)	115	1,147	Yn cynnwys cronfeydd a ddelir ar gyfer amnewid iwniformau a dillad diogelu, i gefnogi'r rhaglen hyfforddi ac ystadau sy'n codi contractau.
Cronfa Ymchwiliadau	3,500	(229)	491	3,762	Cronfeydd wrth gefn a ddelir ar gyfer ymchwiliadau arbenigol, gan gynnwys llofruddiaethau, diogelu pobl sy'n agored i niwed a gwrthderfysgaeth.
Cronfa Lywodraethu	6,699	(1,381)	2,392	7,710	Cronfeydd sydd eu hangen i gefnogi cyllidebau cylchol y blynyddoedd a ddaw, gan gynnwys costau diswyddo, amnewid cyfarpar, cyflenwi gwelliannau gwerth am arian a chomisiynu.
Cyfanswm	14,651	(2,129)	3,295	15,817	

8.2.3 Comisiynu

Mae Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011 (y Ddeddf) yn gadael i mi gomisiynu gwasanaethau'n uniongyrchol o ddarparwyr y tu allan i'r gwasanaeth heddlu. Mae'r Ddeddf a Chod Ymarfer Rheoli Ariannol y Swyddfa Gartref yn ei gwneud yn glir y telir yr holl grantiau a chyllid a delid yn flaenorol i Awdurdodau Heddlu, yn ogystal â rhai ffynonellau cyllid partneriaeth, yn uniongyrchol i Gomisiynwyr. Felly, bydd arian o'r ffynonellau isod bellach yn cael ei dalu yn uniongyrchol i'r Comisiynwyr:

- Cyllid y Rhaglen Ymyrraeth Cyffuriau (Y Swyddfa Gartref)
- Grant Diogelwch Cymunedol (Y Swyddfa Gartref)

- Grant Atal Troseddau Ieuenctid a Chamddefnyddio Sylweddau (Y Swyddfa Gartref)
- Incwm Deddf Elw Troseddau
- Incwm Gwerthu Eiddo Canfyddedig
- Mentrau Cynhyrchu Incwm Penodol
- Ffynonellau cyllid eraill o gronfeydd y Comisiynydd

Mae'r cyllid a drosglwyddwyd gan y Swyddfa Gartref ar gyfer y prosiectau parhaus hyn, sef £856,000, yn 2012-14 £42,000 yn brin o'r gwir ddyraniad a roddwyd yn 2012-13.

Mae'r newid hwn hefyd yn golygu y bydd clustnodi cyllid yn cael ei ddileu erbyn 2014-15, gan roi hyblygrwydd pellach i Gomisiynwyr i gomisiynu gwasanaethau yn unol â'r angen lleol.

Gall comisiynu gwasanaethau olygu prynu gwasanaethu, gwneud cytundebau neu gontractau cydweithredu, darparu grantiau, cysoni cyllidebau â phartneriaid, cyfuno cyllidebau a datblygu cyllidebau cymunedol.

Er mwyn cydnabod y prosiectau sydd â rhwymedigaethau cylchol ar gyfer 2013-14, rwyf wedi ymrwymo i barhau prosiectau a ariennir ar hyn o bryd am gyfnod o flwyddyn. Bydd hyn yn rhoi'r cyfle i mi i adolygu'r darlun cyfredol a sefydlu Strategaeth Gomisiynu ar sail gwybodaeth y gobeithiaf ei chyhoeddi erbyn mis Rhagfyr 2013. Rhoddir cyfle teg a chydraddol i wasanaethau o'r sectorau gwirfoddol, preifat, neu gyhoeddus, sy'n gallu cynorthwyo cyflawni fy mlaenoriaethau, i wneud ceisiadau am grantiau/cyllid o fis Ebrill 2014. Cyhoeddir mwy o wybodaeth am gomisiynu ar fy [ngwefan](#) yn y man.

8.3 Asedau

Mae asedau sy'n cael eu cynnal a'u rheoli'n dda'n chwarae rôl hanfodol wrth ddarparu gwasanaethau plismona effeithlon. Felly, mae'n gwneud synnwyr i gynllunio sut y bydd yr asedau hyn yn cael eu cynnal a'u rheoli yn y tymor canolig/hir. Y rhain yw'r ystyriaethau y manylir arnynt yn y Rhaglen Gyfalaf.

Mae'r Rhaglen Gyfalaf yn blaenoriaethu uwchraddio ystâd yr heddlu gan ganolbwyntio ar wella cyfleusterau yn y prif orsafoedd heddlu mwyaf. Mae'r Rhaglen hefyd yn cynnwys darpariaethau ar gyfer gwelliannau i gyfleusterau'r ddalfa a llety, yn enwedig yn Sir Gaerfyrddin, ac ar gyfer cwblhau gorsaf newydd yn Llandrindod. Mae'r buddsoddiadau hyn yn adeiladu ar ddatblygiadau mawr sydd eisoes wedi'u cwblhau yn ystod y blynyddoedd diwethaf gan gynnwys y Ganolfan Rheoli Strategol a gwelliannau yn y gorsafoedd yn Hwlfordd, Aberteifi, y Drenewydd, Aberhonddu ac Aberaeron.

Cynhwysir crynodeb o'r Blaenraglen Gyfalaf yn y tabl isod:

	2011/12	2012/13	2013/14	2014/15	2015/16	2016/17	2017/18
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
<u>Gwariant Cyfalaf</u>							
Tir ac Adeiladau	2,108	7,856	4,944	2,507	1,080	500	500
Cerbydau	596	1,050	750	750	750	650	650
TG ac Offer	702	3,612	1,305	1,436	1,040	541	541
Cyfanswm Gwariant	3,406	12,518	6,999	4,693	2,870	1,691	1,691
<u>Ariannu Cyfalaf</u>							
Grant y Llywodraeth	-869	-1,140	-1,050	-1,350	-925	-750	-750
Benthyca	-520	-520	-5,059	-1,620	-1,120	-520	-520
Derbyniadau Cyfalaf	-33	-260	-500	-1,500	-10	-10	-10
Ariannu Refeniw/ Cronfeydd Wrth Gefn	-1,984	-10,598	-390	-223	-815	-411	-411
Cyfanswm Ariannu	-3,406	12,518	-6,999	-4,693	-2,870	-1,691	-1,691

8.4 Niferoedd yn y Gweithlu / Gwasanaeth

Ar hyn o bryd, mae oddeutu 81% o'r gyllideb blismona'n cael ei wario ar gyflogi swyddogion heddlu a staff heddlu gan gynnwys swyddogion cymorth cymunedol yr heddlu. Yn ystod y ddwy flynedd diwethaf, mae'r gwasanaeth heddlu wedi mynd drwy gyfnod ad-drefnu mawr, sydd wedi lleihau'r sefydliad. Cyflawnwyd hyn yn bennaf drwy ymddeoliad cynnar gwirfoddol a diswyddo gwirfoddol.

Ar hyn o bryd, mae 1,105 o swyddogion heddlu, 746 o staff heddlu (gan gynnwys swyddogion cymorth cymunedol yr heddlu), 201 o gwnstabiad gwirfoddol a 40 o wirfoddolwyr eraill yn darparu gwasanaethau plismona i'r pedair sir, Sir Gaerfyrddin, Sir Benfro, Ceredigion a Phowys.

Bellach, â'r broses ailstrwythuro wedi cael amser i ymsefydlu, rwyf o'r farn ei bod yn bryd i ni werthuso'r ad-drefnu er mwyn sicrhau bod systemau sifftiau a strwythurau cefnogi'n diwallu anghenion y sefydliad. Ceir manylion y bwriad hwn yn fy mlaenoriaethau ym mhennod 5.

Mae'r Heddlu a Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau yn ddau gorfforaeth undyn ar wahân. Ar hyn o bryd, fel Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau, fi yw cyflogwr holl staff yr heddlu (gan gynnwys Swyddogion Cefnogi Cymunedol yr Heddlu). Erbyn mis Ebrill 2014, mae'n ofynnol i mi adolygu statws cyflogaeth holl staff yr heddlu a throsglwyddo staff sy'n dod o dan gyfarwyddyd a rheolaeth y Prif Gwnstabl i'w cyflogaeth fel corfforaeth undyn ar wahân.

Mae manylion y trosglwyddiad hwn eto i'w penderfynu. Bydd yn cynnwys trafodaethau manwl gyda'r Prif Gwnstabl ac undebau llafur cydnabyddedig. Bydd y trosglwyddiad yn cael ei gymeradwyo gan Ysgrifennydd Gwladol y Swyddfa Gartref. Cyhoeddir rhagor o fanylion ynglŷn â hyn maes o law.

9.0 I Gloi

Roedd y Cynllun hwn yn destun cyfnod ymgynghori a redodd rhwng 14 Ionawr a 6 Chwefror 2013. Derbyniwyd ymatebion gan aelodau o'r cyhoedd, cynghorau tref a sir a nifer o randdeiliaid / asiantaethau.

Ceir rhestr o'r asiantaethau a ymatebodd i'r ymgynghoriad yn adran 10.

Ystyriwyd y Cynllun hefyd gan y Panel Heddlu a Throseddu a wnaeth nifer o argymhellion i'r Cynllun gael ei amrywio. Cyhoeddir fy ymateb i'r argymhellion a wnaed ar fy [ngwefan](#).

10.0 Rhestr o asiantaethau a ymatebodd i'r ymgynghoriad ar y Cynllun

- Cyngrhair Iechyd Alcohol y DU
- ACPO Cymru
- Barnardo's
- Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Sir Gaerfyrddin
- Partneriaeth Plant a Phobl Ifainc Ceredigion
- Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Ceredigion
- Cyngor Sir Ceredigion
- Fforwm Cam-drin Domestig Ceredigion
- Cyngor Cymreig y Gwasanaethau Ieuencid Gwirfoddol
- Y Tîm Troseddu a Chyfiawnder, Llywodraeth Cymru
- Cyfarwyddwr Plant ac Ysgolion Cyngor Sir Penfro
- Prif Gwnstabl, Tîm Prif Swyddogion a staff Heddlu Dyfed-Powys
- Panel Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys
- Bwrdd Iechyd Hywel Dda
- Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru
- Hafal
- Bwrdd Gwasanaethau Lleol Sir Benfro
- Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Powys
- Bwrdd Gwasanaethau Lleol Powys
- Cymdeithas Cludo Nwyddau ar y Ffyrdd
- Cymorth i Ddiodefwr
- Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
- Ymddiriedolaeth Prawf Cymru

Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys

Blwch Post 99, Llangynnwr, Caerfyrddin, SA31 2PF

01267 226440

www.Dyfed-Powys.pcc.police.uk

opcc@dyfed-powys.pnn.police.uk